

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr  
Tudful**  
**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**  
**Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Cell**  
**Seibr Arbenigol**

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau  
GDPR a deddfwriaeth berthnasol.

**Tîm Llywodraethu Gwybodaeth**

**Lisa Richards** – Swyddog Diogelu Data Protection  
**Sam Bishop** – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,  
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Dyddiad Crëwyd :	1 Medi 2019
Adran â Chyfrifoldeb:	Gwasanaethau TGCh ac Argraffu
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Ryan James
Cyfeiriad:	CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu data personol aelodau Fforwm Lleol De Cymru Gydnerth (FfLIDCG) er mwyn ymateb i a chyfathrebu â'i gilydd wrth wynebu ymosodiad seibr.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn. O dan deddfwriaeth diogelu data mae'n ofynnol ein bod yn eich hysbysu o'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw hyn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os wnawn hynny byddwn yn sicrhau fod yna gopi wedi ei ddiweddarau ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn gyda'n Polisi Safonau Preifatrwydd ac hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data a gellir ei weld ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut mae FfLIDCG yn defnyddio data personol swyddogion a enwebwyd wrth alw Cyfarfod Trefn Rheol Aur ac ymateb i ymosodiad seibr.

## **1. GWYBODAETH BWYSIG AM BWY YDYM NI**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer y gell arbenigol hon ac mae'n rheoli ac yn gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Wrth gyfeirio at adran, byddwn yn cyfeirio at Adran Prif Weithredwr y Cyngor sy'n gweithredu'r gell arbenigol sy'n gyfrifol am brosesu eich data ar gyfer y gwasanaethau a fanylir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i Aelodau Cell Arbenigol FfLIDCG sy'n cynnwys yr unigolion a enwebwyd fel cysylltiadau brys i'w sefydliadau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r

swyddog gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Ffôn: 01685 725000

## 2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch fel a ganlyn:

- Disgrifyddion personol yn cynnwys manylion yn cynnwys enw cyntaf, canol ac olaf. Byddwn hefyd yn cofnodi eich cyfeiriad, rhifau ffôn cyswllt a fydd yn cynnwys eich rhif symudol personol, a'ch cyfeiriad e-bost personol.
- Gwybodaeth am gyflogaeth sy'n cynnwys manylion eich cyflogwyr, a theitl eich swydd.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data hwn amdanoch chi yn adran 3 yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

## 3. SUT YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL

Caiff eich data personol ei gasglu fel aelod o Gell Arbenigol FfLIDCG a chaiff ei gadw ar wefan ddiogel y llywodraeth, Reislence Direct sydd yn 'rhwydwaith' ar-lein preifat sy'n galluogi ymarferwyr diogelu sifil i gydweithio.

Dim ond pan fydd y ddeddfwriaeth diogelu data'n caniatáu hynny y byddwn yn defnyddio'ch data personol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaethau a osodwyd o dan Reoliadau GDPR a ble y bo'n berthnasol Ddeddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Yn unol ag Erthygl 6(1)(a) ein bod yn gofyn am ganiatâd wrth ddefnyddio data personol y cyswllt brys nad yw'n gyflogedig ar gontract galw allan.

Yn unol ag Erthygl 6(1)(b) y gallwn brosesu eich data personol yn unol â'ch contract cyflogaeth. Ceir achlysuron pan fydd staff yn derbyn dyfeisiadau symudol er mwyn bod modd cysylltu â nhw pan fyddant allan o'r swyddfa. Os ydych wedi derbyn dyfais symudol yna bydd pob ymgais yn cael ei wneud i gysylltu â chi gan ddefnyddio'r rhain.

Mae'r GDPR yn gosod allan o dan Erthygl 5(1)(f) fod yn rhaid i sefydliadau sicrhau fod ganddynt mewn lle fesurau priodol technegol a sefydliadol i ddiogelu'r data personol

maen nhw'n eu defnyddio. Yn unol ag Erthygl 6(1)(c) rydym yn ystyried fod cael uned Cell Seibr Arbenigol sy'n gallu ymateb i fygythiad yn erbyn diogelwch seibr, i fod y ffordd briodol o reoli risgiau diogelwch, diogelu data personol yn erbyn ymosodiad seibr, datgelu digwyddiadau diogelwch, a lleihau effaith y digwyddiadau diogelwch hynny.

Yn unol ag Erthygl 6(1)(e), o dan Ganllaw Canolfan Diogelwch Seibr Cenedlaethol sy'n berthnasol i ddiogelwch ac amddiffyn seibr mae dyletswydd arnom i ddiogelu ac amddiffyn ein systemau cyfrifiadur a'r data personol a ddefnydir. Y mae er budd y cyhoedd i sichrau fod y data personol a gaiff ei gadw yn ein system gyfreidiadur yn cael ei ddiogelu rhag bygythiadau o drosedd seibr.

Gallwn hefyd brosesu eich data personol pan fo'n angenrheidiol i'n buddion cyfreithiol (neu rai trydydd parti) ac nad yw eich buddion a hawliau sylfaenol yn trechu'r buddion hynny.

#### **4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL**

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol ar draws FfLIDCG er mwyn ymateb i ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth gallwn hefyd rannu eich data personol yn fewnol ar draws Adrannau eraill fel ein Tîm Cynllunio Brys neu oddi fewn i'n Fforwm Llywodraethu Gwybodaeth.

Caiff eich data personol ei rannu'n unig â phartneriaid FfLIDCG sy'n cynnwys Awdurodau Lleol De Cymru, Yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol er mwyn ymateb i ymosodiad seibr.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn ni, yna byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag sy'n bosibl. Os byddwn ni, yna gallwch ddisgwyl cyfradd debyg o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

#### **5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH**

Os nad ydych yn parhau i fod yn aelod caiff eich manylion cyswllt eu dinistrio. Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol am mor hir ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, yn cynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifeg neu adrodd yn ôl. Bydd y wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylwyd yn yr hysbysiad hwn yn cael ei chadw tra'ch bo chi'n aelod o Gell Arbenigol FfLIDCG.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan ([www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)).

#### **6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL**

Rydym wedi gosod gweithdrefnau diogelu priodol mewn lle i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, cael ei defnyddio neu bod mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu'r mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogwyr hynny sydd ag angen busnes i wybod. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl ein cyfarwyddyd ni ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o

gyfrinachedd. Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o amheuaeth o dorcyfraith ble y bo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

## **7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL**

E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

Ffôn: 0330 414 6421

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych yr hawl o dan gyfraith diogelu data mewn perthynas â'ch data personol i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi, mae manylion am yr hawliau hyn yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

Ffôn: 0330 414 6421

## **8. MANYLION PELLACH**

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth am sut ydym ni'n prosesu eich data personol gan gynnwys data diogelwch, cadw data, hawliau unigol edrychwch ar ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).